# BLAENRAGLEN BUSNES CABINET ARFAETHEDIG

**CYFNOD: 1 HYDREF 2018 - 31 IONAWR 2019**

**CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU DISGWYLIEDIG FYDD YN CAEL EU GWNEUD MEWN CYFARFODYDD CABINET**

**Cysylltwch â'r Swyddfa Cefnogi'r Cabinet (2087 2396) os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth**

| Teitl yr Adroddiad | Crynodeb o'r Materion a'r Argymhelliad Arfaethedig | Statws goleuadau traffig craffu | Ymgynghoreion | Pwy fydd yn gwneud y Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|

**11 Hydref 2018**

**Arweinydd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Goblygiadau Posibl Brexit Dim Del | | | | Cabinet |

**Plant a Theuluoedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu Trefniadau Cymorth i Deuluoedd | Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau cymorth cynnar i deuluoedd a phlant, mae cynigion am wasanaethau cymorth teuluol newydd wedi'u datblygu i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth cynhwysfawr i deuluoedd. | AMBER | Mae'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi'i gomisiynu i adolygu gwasanaethau presennol ac mae hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda phrif bartneriaid a rhanddeiliaid fel y gallant gyfrannu'n llawn at yr adolygiad. Mae ychydig o ymgynghoriad wedi'i gynnal hefyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a bydd hyn hefyd yn llywio'r | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | adolygiad. | |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Cwynion Blynyddol | Adroddiad cwynion blynyddol y Cyngor yn darparu cyfanswm y cwynion a'r canmoliaethau y mae'r Awdurdod yn ei dderbyn bob blwyddyn ariannol.<br><br>Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar faint y derbyniodd pob gwasanaeth gyda naratif ar ddadansoddiad tueddiad, yn egluro unrhyw gynnydd neu leihad o'r flwyddyn gynt. Bydd gwelliannau a wneir gan y Cyngor o ganlyniad i adborth cwsmeriaid hefyd yn cael ei ystyried a'i nodi.<br>Darperir gwybodaeth ychwanegol ar gwynion sydd wedi cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru gan gynnwys data megis nifer y cwynion sy'n berthnasol. | Green | | Cabinet |
| Adroddiad Gwella Statudol Cyngor Caerdydd | Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chyhoeddi bob blwyddyn fel adlewyrchiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn y flwyddyn ariannol gynt (2017-18) yn unol â'r Cynllun Corfforaethol. Mae'n rhaid i'r adroddiad fod ar gael yn gyhoeddus erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar wefan y Cyngor, er mwyn bodloni gofynion Archwilydd Cyffredinol Cymru. | Green | | Cabinet |

**Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Ansawdd Aer Lleol - Adroddiad | Adroddiad yn manylu ar ganlyniadau monitro ansawdd aer a gynhelir ledled Caerdydd yn ystod 2017. | AMBER | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd Blynyddol ar Ansawdd Aer a'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Awyr Iach | Ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno'r Strategaeth Aer Glân a Chynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru sy'n gosod y camau/mesurau strategol i wella ansawdd aer yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac yn ehangach ledled Caerdydd. | | | |

**Hydref 2018**

**Buddsoddi a Datblygu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau buddsoddiad i adeiladau treftadaeth sy'n eiddo i'r Cyngor | Mae angen buddsoddi i lawer o adeiladau treftadaeth y Cyngor er mwyn mynd ar ôl gwaith cynnal a chadw ynghyd â sicrhau eu cynaliadwyedd. Bydd yr adroddiad yn cynnig opsiynau i sicrhau buddsoddiad i adeiladau treftadaeth y mae'r Cyngor yn berchen arnynt | AMBER | | Cabinet |
| Arena Dan Do | Outline the approach for the delivery of the Indoor Arena and to secure cabinet approval for the initial costs | Amber | | Cabinet |
| Tir yn Harbour Drive | Cael tir yn Harbour Drive er mwyn trosoleddu buddsoddiad yn yr ardal. | AMBER | | Cabinet |

**15 Tachwedd 2018**

**Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymagwedd Cyngor Caerdydd i Blastigau | Mewn ymateb i gynnig plastig untro a gyflwynwyd i'r Cabinet; i) i weithio gyda phartneriaid ar y Cynnig Dim Chwistrelli; ii) i weithio | GREEN | Bydd ymgysylltu ac ymgynghoriad yn | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd Sengl | gyda Dŵr Cymru ar Orsafoedd Ail-lenwi iii) ymchwilio i farchnadoedd ailgylchu nad oedd yn ailgylchadwy o’r blaen. Cynhyrchu adroddiad yn amlinellu cynlluniau erbyn Hydref 2018 i leihau eitemau untro ar eiddo’r cyngor megis cwpanau, deunydd lapio, bagiau ac ati.<br><br>Mae’r adroddiad yn amlinellu cefndir plastigau untro a meysydd pryder i’r Cyngor. Mae’r adroddiad yn amlinellu cynllun gweithredu i ddeall a lleihau plastigau untro ledled yr Awdurdod achynnig polisi drafft er ymgynghoriad pellach ar ymrwymiad y Cyngor i leihau plastigau untro ac amddiffyn ein hamgylchedd. | | cael ei gynnal gyda phrif randdeiliaid gan gynnwys grwpiau, dinasyddion, cyflenwyr a’r Cyngor o ran y polisi drafft. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol 2017-18 y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir | Rhoi i’r Cabinet adolygiad o’r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi’i wneud yng Nghaerdydd a pherfformiad cysylltiedig. | | | Cabinet |

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd Willows | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Ymhlith y blaenoriaethau mae cynnig i Ysgol Uwchradd Willows gael ei ail-adeiladu a’i ehangu i gynnig ysgolion uwchradd 11-16 newydd gydag wyth dosbarth mynediad. Mae’r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig hwn. | AMBER | Byddwn yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys Aelodau, Llywodraethwyr, Penaethiaid, staff ysgol, rhieni, plant a phreswylwyr lleol yn rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus. | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd Cantonian | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynigion i ddatblygu'r Safle Ysgol Uwchradd Cantonian presennol, yn unol â chynlluniau â blaenoriaeth Band B. | AMBER | Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal gydag Aelodau, y gymuned leol, staff, Llywodraethwyr a'r ysgolion, ysgolion lleol eraill, disgyblion a rhanddeiliaid eraill yn unol â'r gofynion statudol. | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynigion Cylideb 2019/20 ar gyfer Ymgynghoriad | Ystyried cynigion Cyllidebol i ymgynghori arnynt | Green | | Cabinet |
| Monitro Cyllideb - Adroddiad 6 Mis | Bydd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa monitro ariannol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon refeniw a chyfalaf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o amrywiaethau allweddol yn seiliedig ar y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol. | Green | | Cabinet |
| Aroddiad Perfformiad Chwarter 2 2018-19 | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad y Cyngor yn ystod Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2018-19, gan roi cyfle i'r | Green | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Cabinet i adolygu perfformiad, ystyried unrhyw faterion newydd ac unrhyw gamau adferol os oes angen. | | | |
| Adriddiad Canol y Flwyddyn Tîm Rheoli'r Trysorlys 2018/19 | Rhoi gwybod i aelodau o weithgareddau Rheoli'r Drysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2018 a'r sefyllfa ar 30 Medi 2018 | | | Cabinet<br><br>Cyngor |
| **Buddsoddi a Datblygu** | | | | |
| Llety Swyddfa Craidd | Bydd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar y gwaith i ddatblygu cynigion i Lety Swyddfa Craidd i'r dyfodol ar gyfer y Cyngor, sydd â'r nod o leihau costau gweithredol, y gwaith cynnal a chadw a rhoi cyfleusterau gwell. | AMBER | | Cabinet |
| Papur Gwyn Economaidd | Yn 2017 cyhoeddodd y Cyngor 'Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell', Papur Gwyrdd Strategaeth Economaidd. Mae'r adroddiad yn rhan o'r broses ymgynghori ac yn cyflwyno'r Papur Gwyrdd dilynol. | AMBER | | Cabinet |
| **Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth** | | | | |
| Gosod goleuadau strydoedd preswyl LED trwy'r ddinas a datblygu seilwaith SMART | Mae cyflawniad goleuadau stryd LED ar y rhwydwaith ffyrdd strategol wedi llwyddo i gefnogi lleihad mewn defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd.<br><br>Mae peilot preswyl yn Radur yn dangos bod pryderon ynghylch goleuadau stryd LED mewn ardaloedd preswyl.<br><br>Mae datblygu goleuadau stryd LED preswyl 'buddsoddi i arbed' yn | Amber | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | rhoi cyfleoedd pellach i leihau defnydd ynni ac Ôl-Troed Carbon Caerdydd.<br><br>Bydd cysylltu goleuadau stryd LED i System Reoli Canolog yn galluogi gweithrediad seilwaith SMART. Bydd yr adroddiad yn adnabod y buddion a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â seilwaith SMART i brojectau i'r dyfodol. | | | |
| Clampio a symud cerbydau niwsans o'r briffordd | Gall cerbydau niwsans greu problemau sylweddol ac yn gwylltio dinasyddion sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Bydd darparu'r gwasanaeth hwn yn galluogi'r cyfle i ddefnyddio pwerau'r DVLA wedi'u dirprwyo i fynd i'r afael â cherbydau heb eu trethi mewn ardaloedd cyhoeddus. | Amber | | Cabinet |
| Cadarnhau Erthyl 4(2) Cyfeiriadau yn Llandaf a Ffordd Caerdydd. | Yn dilyn Penderfyniad y Cabinet ym mis Gorffennaf 2018, cyflwynwyd Erthygl 4(2) Cyfeiriadau ar 11 Awst i ddileu hawliau datblygu a ganiatawyd i ddymchwel yn rhannol unrhyw ran o Ardaloedd Cadwraeth Llandaf a Ffordd Caerdydd. Bydd yr Adroddiad hwn yn ceisio cadarnhad o'r Cyfeiriadau yn unol â'r ddeddfwriaeth. | Green | Anfonwyd llythyrau at aelodau lleol, holl berchenogion/meddiannwyd yr eiddo y effeithir arnynt (tua 400 eiddo) a rhoddwyd hysbyseb yn y Western Mail yn rhoi 21 diwrnod i wneud sylwadau. Caiff yr ymatebion eu cofnodi yn Adroddiad y Cabinet. Rhaid cadarnhau'r | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | gorchymyn yn yr un ffordd y cafodd ei wneud – felly bydd angen llythyrau eraill a hysbysiad gwag arall. | |

**13 Rhagfyr 2018**

**Arweinydd**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Siarter Cynghorau Cymuned | Diweddaru'r Siartr y cytunwyd arno â'r Cynghorau Cymuned ac a fabwysiadodd y Weithrediaeth yn 2012 gyda'r nod o gynorthwyo cyfathrebu a chysylltiad strwythuredig a rheolaidd rhwng Cynghorau Cymuned a'r chwe Chyngor Cymuned yng Nghaerdydd | Green | Cynghorau Cymuned | Cabinet |

**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cofrestr Risg Corfforaethol - Adolygiad Canol y Flwyddyn 2018/19 | Bydd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y prif risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y Cabinet wedi gweld y Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn Cyfarfod Cabinet ym mis Gorffennaf 2018. Bydd uwch swyddogion yn adolygu'r ddogfen yn chwarterol a'r Cabinet yn gwneud hynny unwaith pob 6 mis.<br><br>Mae perchnogion Risg Corfforaethol ar lefel Cyfarwyddwyr, a byddant yn rhoi mewnbwn i adolygu'r ddogfen hon. | | | Cabinet |
| Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor 2019/20 | Mae gan y Cyngor ymrwymiad statudol i gytuno sail treth gyngor erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i ddirprwyo i'r Cabinet. | | | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddi a Datblygu** | | | | |
| Cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd newydd | Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet am Strategaeth Ddiwydiannol Dwyrain Caerdydd. | Amber | | Cabinet |
| Diweddariad Arloesi | Mae denu a datblygu swyddi o werth uchel yn elfen bwysig o strategaeth economaidd y ddinas. Mae seilwaith arloesi yn derbyn cefnogaeth gynyddol gan ystod o weithredwyr, yn cynnwys partneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus. Mae'r adroddiad yn nodi ein dull o gefnogi arloesi a thrafod buddsoddiad. | Amber | | Cabinet |
| Ffordd Dumballs | Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno uwchgynllun newydd ar gyfer Dumballs Road a chreu tai fforddiadwy Cyngor Caerdydd. | Amber | | Cabinet |
| **Tai a Chymunedau** | | | | |
| Adolygiad a Strategaeth Digartrefedd 2018-2022 | Dan Adran 50 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n rhaid i awdurdod tai lleol ymgymryd ag adolygiad digartrefedd i'w ardal, a chreu a mabwysiadu strategaeth ddigartrefedd yn seiliedig ar yr adolygiad hwnnw. Mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu strategaeth digartrefedd yn 2018 a strategaeth digartrefedd newydd pob pedair blynedd ar ôl hynny.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o'r data sydd ar gael, yn archwilio'r prif achosion digartrefedd yng Nghaerdydd, yn canolbwyntio ar brif themâu atal, llety a chymorth. | AMBER | Gofynnwyd am sylwadau gan sefydliadau partner ynglŷn â'r gwasanaethau digartrefedd ac mae'r rhain wedi'u defnyddio'n rhan o'r adolygiad. Cynhaliwyd | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd prif ganfyddiadau o’r adolygiad yn cael eu defnyddio i lywio’r Strategaeth Digartrefedd fydd yn defnyddio dull cydlynol o ran taclo ac atal y mater hwn. Bydd y Strategaeth yn adnabod y gwasanaethau sydd ar gael a sut gallent gael eu gwella i sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth a chefnogaeth priodol ac amserol. | | adolygiad cleientiaid i gael barn a phrofiadau’r defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar y strategaeth yn digwydd ym mis Tachwedd unwaith y mae drafft llawn wedi dod i ben. | |

**Social Care Health & Wellbeing / Children & Families**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2017/18 | Diweddaru aelodau’r Cabinet ynghylch y gwaith a wnaed i wella’r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion y mae angen gwasanaethau penodol y Cyngor a sicrhau bod y trefniadau hyn yn effeithiol. | Amber | | Cabinet |

**Ionawr 2019**

**Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion: Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B) Ysgol Uwchradd | Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr ystyriodd y Cabinet adroddiad yn nodi cynlluniau â blaenoriaeth y Cyngor yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi’r cynnig i ail-adeiladu Ysgol Uwchradd Fitzalan fel ysgol uwchradd 11-18 newydd gyda 10 dosbarth mynediad ac yn manylu’r ymatebion i’r | AMBER | A public engagement will be undertaken with Members, the local community, staff | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Fitzalan | ymgysylltiad cyhoeddus. | | and Governors of the school, other local schools, pupils and other stakeholders.<br>Bydd ymgysylltiad cyhoeddus yn cael ei gynnal gydag Aelodau, y gymuned leol, staff a Llywodraethwyr yr ysgol, ysgolion lleol eraill, disgyblion a rhanddeiliaid eraill. | |

**Tai a Chymunedau**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Lletya Pobl Hŷn 2018 - 2023 | Mae'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn hon yn gosod sut bydd y Cyngor a phartneriaid yn llywio ac yn cyflawni gwasanaethau tai a chysylltiedig i bobl hŷn, a sut gall y ddarpariaeth hon helpu i fynd ar ôl blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. | | Ymgynghoriad preswyl cychwynnol a bore coffi yn Brentwood Court; Clos Y Nant; Minton Court; Tŷ Popular a Thŷ Nelson, mewn perthynas â gwaith gwella sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae manyleb fanwl ar gyfer pob | Cabinet |

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cynllun Byw Cymunedol wedi'i datblygu i sicrhau cysondeb | |

**Chwefror 2019**

| Report Title | Summary of Issues & Proposed Recommendation | Scrutiny Traffic light status | Consultees | Decision Maker |
|---|---|---|---|---|
| Adroddiad y Cyllid 2019/20 | Argymell bod cynigion cyllidebol y Cabinet yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ynghyd â'r argymhellion statudol angenrheidiol. | Red | | Cabinet |
| Monitro'r Gyllideb - Adroddiad Mis 9 | Bydd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa monitro ariannol cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chyfrifon cyfalaf a refeniw. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r prif amrywiaethau'n seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol. | Green | | Cabinet |
| Chwarter 3 2018-19 Adroddiad Perfformiad | Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o berfformiad y Cyngor ar gyfer Chwarter 3 y flwyddyn ariannol 2018-19, gan roi cyfle i'r Cabinet i adolygu perfformiad, ystyried unrhyw faterion newydd, a chyfarwyddo unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. | Green | | Cabinet |